



Sut y dyfarnir deilliannau dysgu ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20?

UG/Safon Uwch, TGAU a Thystysgrifau Her Sgiliau



O 3 Ebrill 2020

TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau a gynigir gan CBAC

Cefndir

Cyhoeddwyd (18 Mawrth 2020) y byddai arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch haf 2020 yn cael eu canslo, fel rhan o ymateb brys y llywodraeth i effaith y Coronafeirws ar y DU ac i frwydro yn erbyn lledaenu'r feirws.

Mewn cyhoeddiad pellach gan Gymwysterau Cymru (3 Ebrill 2020), eglurwyd y byddai'r deilliannau eleni yn cael eu cyhoeddi yn seiliedig ar ddau ddarn o wybodaeth:

1. Gradd a Aseswyd yn y Ganolfan - dyma'r radd mae'r darparwr yn credu y byddech wedi ei derbyn petai addysgu, dysgu ac arholiadau wedi'u cynnal fel y trefnwyd.
2. Trefn Gyfradd - rhoddir y dysgwyr mewn trefn gyfradd ar sail perfformiad, o fewn y graddau hynny.

Sut y dyfarnir y Graddau a Aseswyd yn y Ganolfan?

Bydd eich athrawon yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth, megis eich gwaith yn y dosbarth a gartref; canlyniadau eich aseiniadau ac unrhyw ffug arholiadau; unrhyw asesiadau heb arholiad rydych wedi'u cwblhau; a'ch cynnydd cyffredinol yn ystod eich cwrs.


Ar gyfer dysgwyr TGAU, bydd hyn hefyd yn cynnwys canlyniadau unrhyw unedau TAG a astudiwyd eisoes.

Ar gyfer dysgwyr Safon Uwch a astudiodd gyrsiau UG yn 2019, bydd hyn hefyd yn cynnwys eich canlyniadau UG.

Ar gyfer y Tystysgrifau Her Sgiliau, efallai yr ystyrir gwaith a gwblhawyd ar ôl 20 Mawrth ar gyfer y Radd a Aseswyd yn y Ganolfan.

Os ydych yn fyfyrwr sy'n gymwys ar gyfer trefniadau arbennig ar gyfer arholiadau, byddant yn cael eu

hystyried yn y graddau rydych yn eu derbyn, felly ni
fyddwch dan anfantais o fewn y broses newydd.



A fydd angen i mi gwblhau asesiadau pellach?

Cynghorir i beidio ag ystyried gwaith a gwblhawyd ar ôl 20 Mawrth wedi i safle'r coleg gau, wrth wneud beirniadaeth ar Raddau a Aseswyd yn y Ganolfan. Bydd asesiadau dysgu a ffurfiannol yn parhau ar ôl 20 Mawrth i roi cyfleoedd i chi barhau i ddatblygu'r sgiliau rydych eu hangen wrth ddatblygu yn ystod y flwyddyn nesaf, ond ni fydd yn cael ei gynnwys yn nyfarniad y Graddau a Aseswyd yn y Ganolfan.

A fydd fy athro yn rhannu fy ngraddau â mi?

Mae'r data (graddau a threfn gyfradd) fydd yn cael ei ddarparu i CBAC yn gyfrinachol, ac ni ellir ei rannu gyda dysgwyr, eich rheini neu ofalwyr. Peidiwch â gofyn i'ch athrawon, neu unrhyw un arall yn y coleg, rannu â chi'r graddau y byddant yn eu hanfon at y byrddau arholi, neu lle maen nhw wedi eich gosod o ran trefn dysgwyr. Pwrpas hyn yw diogelu tryloywder beirniadaeth yr athrawon, ac osgoi rhoi athrawon, Penaethiaid Ysgolion, neu Benaethiaid Canolfan dan bwysau i gyflwyno'r radd nad yw'n cael ei chefnogi gan dystiolaeth. Dylech hefyd gofio mai graddau dros dro yw'r rhai a argymhellir gan eich athrawon, ac mae posib iddynt newid yn ystod y broses safoni, felly nid yw graddau gan athrawon yn bendant.

Beth fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r wybodaeth i CBAC?

Defnyddir y wybodaeth gan CBAC a byrddau arholi eraill i safoni beirniadaethau ar draws yr holl ysgolion a cholegau. Byddant yn ceisio sicrhau bod y canlyniadau yn deg, cyn belled â phosib, ac na fydd myfyrwyr yn manteisio neu dan anfantais oherwydd bod eu hysgol neu goleg yn fwy hael neu llym nag eraill.

Defnyddir modelau strategol i sicrhau bod y dyfarniadau yn gyson, o ran dosbarthu graddau o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r hyn oll yn golygu y gallwch dderbyn gradd wahanol i'r un mae'r coleg yn ei hanfon at CBAC.

A allaf gwblhau fy arholiadau ar amser arall?

Mae arholiadau TGAU mewn Saesneg Iaith, Mathemateg, Rhifedd Mathemateg a Chymraeg Iaith eisoes yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Gallwch gofrestru ar gyfer yr arholiadau hyn ym mis Tachwedd 2020. Bydd arholiadau eraill ar gael, fel arfer, yn ystod haf 2021.

A fydd fy ngradd UG yn cyfrannu at fy ngradd Safon Uwch flwyddyn nesaf?

Mae'r radd UG yn gymhwyster annibynnol. Ni fydd y radd UG y byddwch yn ei chyflawni'r haf hwn yn cyfrannu at eich gradd Safon Uwch y flwyddyn nesaf.

A fyddaf yn gallu ail-sefyll fy nghymhwyster lefel UG os wyf yn anhapus â fy ngradd?

Os ydych yn anhapus â'r radd sy'n cael ei dyfarnu i chi'r haf hwn, byddwch yn gallu:

1. Sefyll yr unedau UG a Safon 2 ar gyfer y Safon Uwch yn ystod haf 2021. Bydd y Safon Uwch gyfan yn cael ei chyfrifo ar sut rydych yn perfformio yn yr holl unedau ynddi.
2. Petaech yn sefyll yr unedau A2 yn unig yn ystod haf 2021, byddant yn cael eu defnyddio i gyfrifo canlyniad ar gyfer yr unedau UG. Defnyddir y marciau cyfun i gynhyrchu'r radd Safon Uwch.

Os ydych yn dewis opsiwn 1 a 2, ac yn cyflawni gradd uwch, byddwch yn derbyn y radd uchaf.

Beth os rwy'n anhapus gyda fy ngraddau?

Ni fydd y trefniadau arferol ar gyfer ail farcio ac apeliadau yn berthnasol, ac rydym yn disgwyl cyfarwyddyd pellach ar hyn gan y corff dyfarnu.

Proses ac Amserlen

Ni osodir y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon i CBAC cyn 29 Mai 2020.

Bydd canlyniadau UG, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau yn cael eu cyhoeddi ar ddydd Iau 13 Awst 2020.

Bydd canlyniadau TGAU yn cael eu cyhoeddi ar ddydd Iau 20 Awst 2020.

Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth, dilynwch y diweddariadau ar wefan Cymwysterau Cymru:

<https://qualificationswales.org/welsh/coronavirus---covid-19/frequently-asked-questions/>